**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mehefin 2009**

**Dogfen Ymgynghori ar y Cynllun Lleihau Risg 2009**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno dogfen ymgynghori drafft y Cynllun Lleihau Risg 2009 am gymeradwyaeth yr aelodau.

## Cefndir

2 Yn 2006, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau ar Gynllunio i Leihau Risg gyda'r nod o ddarparu ymagwedd wedi ei strwythuro i reoli risg corfforaethol a chymunedol.

3 Yn 2007, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllaw wedi ei ddiweddaru ar Raglen Gwella Cymru i Awdurdodau Tân ac Achub lle'r oedd yn diffinio risg fel *'...unrhyw ddatblygiad neu ddigwyddiad potensial fyddai, os ydynt yn datblygu, yn peryglu gallu'r Awdurdod Tân ac Achub i gyflawni ei nodau strategol, yn darparu gwasanaethau fel sydd wedi eu bwriadu, ac yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol...'.*

4 Yn 2008, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fframwaith Tân ac Achub wedi ei ddiweddaru oedd yn ailadrodd yr angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub baratoi, ymgynghori'n gyhoeddus a chyhoeddi ei gynllun gweithredu/cynllun lleihau risg ar gyfer pob blwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

## Cyflwyniad

5 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer pob blwyddyn yn dilyn cyhoeddiad llawn o'i Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007-08.

6 Roedd ei gynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2009-10 yn cynnwys cynnig i: "Sefydlu gweithgor bychan...i ymgymryd ag adolygiad i ddarganfod os yw safonau gwasanaeth tân wrth gefn yn briodol i'r risgiau o fewn y gymuned; a pha unai os oes gan y Gwasanaeth yr adnoddau priodol ar gael yn y mannau iawn i ymateb i'r risgiau hynny'n effeithiol. Bydd darganfyddiadau'r Gweithgor yn ffurfio sail Cynllun Lleihau Risg llawn nesaf yr Awdurdod (yn 2010-11)".

7 Ym mis Mehefin 2008, penderfynodd yr aelodau i beidio ag aros hyd y flwyddyn 2009-10, ond i ddechrau'r gwaith yn gynt, oherwydd bod llawer iawn o waith yn gysylltiedig gyda'r dasg.

## Gwybodaeth

8 Sefydlwyd Gweithgor Tân Wrth Gefn ac Adolygu Risg a bu'n cyfarfod yn rheolaidd rhwng mis Tachwedd 2008 a Mawrth 2009, gwnaeth ei argymhellion i Weithgor Cynllunio i Leihau Risg ar 11eg Mai 2009. Ystyriwyd dogfen ymgynghori drafft y Cynllun Lleihau Risg gan y Grŵp Gweithredol yn hwyrach yr un diwrnod, ac mae wedi ei atodi am gymeradwyaeth gan yr awdurdod llawn am ymgynghoriad dros haf 2009.

9 Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r Awdurdod i osod ei gyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio i leihau risg yn ystod 2010-11, gan arwain at y datblygiad o gynllun gweithredu lleihau risg llawn am ymgynghoriad dros haf 2010.

10 Byddai cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2010-11 yn ddatblygiad o'r cynlluniau gweithredu sydd wedi derbyn ymgynghoriad eisoes, ynghyd ag unrhyw faterion perthnasol adnabuwyd drwy'r Asesiad Risg ar y Cyd 2009-10.

11 Mae’r ddogfen ymgynghori drafft ynghlwm yn atodiad 1, ac yn cynnwys pedwar pwnc penodol i’w hystyried ynglŷn: gweithio gyda phobl ifanc, y system dyletswydd rhan amser, cynlluniau ymateb ar y cyd ac ymagweddau i arbed arian.

**Argymhelliad**

12 Fod Aelodau’n:

(i) nodi ac yn cymeradwyo’r bwriad i barhau gyda, a chyfuno cynlluniau gweithredu’r cynllun lleihau risg blaenorol yn ystod 2010-11;

(ii) nodi a chymeradwyo’r bwriad i ymgynghori gyda rhanddeiliaid am bedwar egwyddor sylfaenol (pynciau’r Cynllun Lleihau Risg) dros haf 2009, i arwain y gwaith o gynllunio i leihau risg yn ystod 2010-11 i’w gyhoeddi mewn Cynllun Gweithredu Lleihau Risg erbyn 31 Hydref 2010; a

(iii) cymeradwyo’r ddogfen ymgynghori (atodiad 1) i’w gyhoeddi a’i ddosbarthu ar unwaith.